# PECYN ADNODDAU

## GORNEST LYFRAU 2026



Blwyddyn 3-4

# Cynnwys


**Am Gymro!** 3
Adnabod Awdur – Medi Jones-Jackson 5


**20 o Bobl Liwgar Cymru** 7
Adnabod Awdur – Natalie Jones 9


**Amara** 11
Adnabod Awdur – Manon Steffan Ros 13

**Mira a'r Goeden** 15
Adnabod Awdur – Luned Aaron 17

**Ymlaen â Hi! Menywod Cymru ym Myd y Campau** 19
Adnabod Awdur – Elen Williams 21

**Y Gwaith Cartref Coll** 23
Adnabod Awdur/Addasydd – Bethan Mair 25

















## Am Gymro!

**Medi Jones-Jackson**

Y Lolfa | 978-1-800996-95-3

Llyfr deniadol a llawn hwyl am 13 o ddynion ysbrydoledig o Gymru sy'n arbenigwyr yn eu meysydd penodol ac yn dod o bob rhan o Gymru. Ceir hanesion am Gareth Bale, Billy Boston, Dr Ganesh Subrahmanyan, Hedd Wyn, Gwynfor Evans, T. Llew Jones, Dafydd Iwan, Eric Jones, Kyffin Williams, Richard Burton, Clough Williams-Ellis, Lyn Evans a Geraint Thomas. Yng nghefn y llyfr ceir posau a gweithgareddau.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Oeddech chi'n gwybod am y bobl yn y llyfr cyn i chi ei ddarllen? Oes unrhyw un o'r enwogion yn dod o'ch ardal chi?
- Beth ydych chi eisiau ei wneud pan fyddwch chi'n tyfu i fyny?
- Mae artistiaid o wahanol fathau yn y llyfr, fel yr arlunydd Kyffin Williams. Pa artistiaid ydych chi'n eu hoffi?
- Pa bobl eraill o'r byd chwaraeon ydych chi'n gwybod amdanyn nhw? Neu'r byd gwyddonol? Ydych chi'n gallu creu proffil amdanyn nhw?
- Pa enwogion eraill hoffech chi eu gweld tasech chi'n ychwanegu mwy o bobl i'r llyfr?
- Beth yw eich barn chi am y darluniau sydd yn y llyfr? Allwch chi greu llun o enwogion eraill sydd ddim yn y llyfr?
- Mae'r bobl yn y llyfr yn ysbrydoledig ac yn arwyr i lawer o bobl. Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud rhywun yn arwr neu'n arwres?
- Pe baech chi'n cael parti ac am estyn gwahoddiad i dri pherson o'r llyfr, pwy fyddech chi'n eu dewis a pham?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Oes gennych chi hoff gân sydd bob tro yn gwneud i chi deimlo'n well? Allwch chi ddisgrifio'r ffordd mae'r gân yn gwneud i chi deimlo? Beth sy'n gwneud y gân 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan yn un arbennig yn eich barn chi? Beth ydy neges y gân? Beth am wrando arni, dysgu'r geiriau, ac yna recordio fideo miwsig eich hunain? Neu, dewiswch gerddor arall. Gallwch hefyd greu rhestr o gerddoriaeth o Gymru ar gyfer disgo dosbarth! A bydd yn rhaid i chi olygu'r fideo a dangos y clip gorffenedig ar y sgrin fawr o flaen yr ysgol gyfan!



**Neu:**

Mae pob person yn *Am Gymro* yn arbennig am wahanol resymau. Meddyliwch am y pethau sy'n eich gwneud chi'n arbennig ac yna gorffennwch y brawddegau canlynol:

- Dwi'n ffrind da oherwydd...
- Dwi'n dda iawn am wneud...
- Dwi wedi gweithio'n galed i wella...
- Dwi'n falch ohonof fy hun pan...
- Fy nhalent arbennig yw...
- Dwi'n aelod da o dîm oherwydd...

Ychwanegwch fwy o frawddegau tebyg os gallwch chi.

## Wedi mwynhau *Am Gymro*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Genod Gwych a Merched Medrus* – Medi Jones-Jackson – Y Lolfa
- *Cymru ar y Map* – Elin Meek, darluniau gan Valériane Leblond – Rily
- *Cymry o Fri* – Jon Gower – Y Lolfa
- *10 Stori o Hanes Cymru (y Dylai Pawb eu Gwybod)* – Ifan Morgan Jones – Rily
- Cyfres Enwogion o Fri – Broga



## Adnabod Awdur

# Medi Jones-Jackson



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Llanrwst yng ngogledd Cymru – tref hardd mewn dyffryn hardd.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Bro Gwydir ac Ysgol Dyffryn Conwy.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Y peth gorau – y ffrindiau sydd o'ch amgylch, a'r rhyddid i ddysgu a chwarae a chael hwyl. Y peth gwaethaf – y gwyliau haf – chwe wythnos o boeni y buaswn i'n anghofio sut i ysgrifennu. Chollais i ddim un diwrnod o'r ysgol uwchradd mewn saith mlynedd.
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Cymaint o bethau gwahanol. Dyna'r peth gorau am fod yn ifanc – mae gennych gymaint o opsiynau. Roeddwn i'n gwirioni ar ffilmiau ac felly am fod yn actores neu sgriptiwr ffilm. Dwi'n dal i freuddwydio am ennill Oscar.
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Mae gormod o ddewis. Roeddwn i wedi gwirioni ar gyfres *Sweet Valley High* am yr efeilliaid Elizabeth a Jessica, a hefyd y gyfres *Horrible Histories*.
**Beth yw eich diddordebau?** Dwi wrth fy modd yn mynd ag Indy, fy nghi, am dro. Corhelgi (*beagle*) yw e, felly mae angen llawer o ymarfer corff arno, ac mae'r ddau ohonon ni'n mynd i grwydro ar y bryniau ger fy nghartref. Mae mor ddrygionus, ond dwi'n ei garu. Dwi hefyd yn mwynhau darllen. Dwi'n darllen bob nos cyn mynd i'r gwely, ac yn darllen i fy mhlant, Anest ac Elis.
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Dwi wedi caru geiriau erioed. Cefais gopi o eiriadur mawr Saesneg a thesawrws gan gymydog pan oeddwn i tua deg oed, ac roeddwn wrth fy modd yn pori ynddo a darganfod geiriau newydd fel *bibble*, *kerfuffle* a *flub*.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Cadwch ddyddiadur. Mae'n ffordd wych o ymarfer ysgrifennu a rhoi eich llais ar bapur.
**Oes gennych chi unrhyw arferion pan fyddwch chi'n ysgrifennu?** Mae pensil finiog bob amser yn helpu. A phaned o de a bisged.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr?**

Ar hyn o bryd, The Boy who Dreamed Dragons gan Caryl Lewis.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Scout o *To Kill a Mockingbird.*

**Hoff fwyd?**

Dairy Milk Chocolate.

**Hoff le i ysgrifennu?**

Fy nesg.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Jôcs gwael fy ngŵr.

**Hoff air?**


Kakorrhaphiophobic.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**

Instagram.

**Top tip i ddarpar awduron?**

Daliwch ati i ysgrifennu.




## 20 o Bobl Liwgar Cymru

**Natalie Jones**

Y Lolfa | 978-1-800996-08-3

Llyfr deniadol a hwyliog am 20 o bobl ysbrydoledig o Gymru. Nod y llyfr ydy cyflwyno modelau rôl i blant gan gyflwyno gwybodaeth am bobl o liw sy'n arbenigwyr yn eu meysydd penodol. Bydd y gyfrol yn ysbrydoli plant ar hyd a lled Cymru i fod â balchder yn eu hunaniaeth, i fod yn driw i'w hunain ac i anelu'n uchel. Ceir gweithgareddau hefyd ar ddiwedd y llyfr a bydd adnoddau digidol ar gael. Rhan o gynllun Rhyngom.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Beth mae 'model rôl' yn ei olygu i chi?
- Ydych chi'n meddwl bod y llyfr yn ysbrydoledig? Pam?
- Mae 20 o bobl yn y llyfr – gallwch chi feddwl am 20 o bobl sydd yn eich ysbrydoli chi? Pam eu dewis nhw?
- Pe baech chi'n cael parti ac yn estyn gwahoddiad i dri pherson o'r llyfr, pwy fyddech chi'n eu dewis a pham?
- Mae gan y bobl yn y llyfr straeon ysbrydoledig i'w rhannu. Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud person ysbrydoledig? Pam?
- Oeddech chi'n gwybod am y bobl yn y llyfr cyn ei ddarllen? Oes unrhyw un o'r enwogion yn dod o'ch ardal chi?
- Pa bobl sy'n aros yn y cof ar ôl darllen y llyfr? Pam?
- Faint o swyddi gwahanol sydd yn y llyfr? Fel cantores, pêl-droediwr, ac ati. Ydych chi'n gallu cyfri pob un swydd?

**Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Mae'r llyfr yn rhoi gwybodaeth am bobl ysbrydoledig. Beth am ddewis person ysbrydoledig hanesyddol, neu berson sy'n fyw heddiw, a mynd ati i greu portread ohoni/ohono/ohonynt? Defnyddiwch gyfrwng sydd, yn eich barn chi, yn gweddu orau i'ch arwr, arwres neu berson ysbrydoledig.



**Neu:**

Mewn grwpiau, beth am ddewis un o'r geiriau canlynol i drafod 'cymuned', 'hunaniaeth' a 'balchder'? Beth mae'r geiriau yma'n eu golygu i chi? Trafodwch y gwahanol bethau y gallech chi eu gwneud i greu cymuned dda sy'n dangos caredigrwydd a chyfeillgarwch tuag at bawb. Yna, ewch ati i greu calendr cymunedol, gydag un peth caredig i'w wneud bob dydd yn eich cymuned neu yn eich ysgol. Er enghraifft, mynd i gasglu sbwriel o gwmpas y dref neu bentref.




## Wedi mwynhau *20 o Bobl Liwgar Cymru*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Cymry o Fri* – Jon Gower – Y Lolfa
- *Cyfres Enwogion o Fri* – Broga
- *Fy Nghroen I, dy Groen Di* – Laura Henry-Allain – Rily
- *Genod Gwych a Merched Medrus* – Medi Jones-Jackson – Y Lolfa
- *Pawb a Phopeth: Byd y Gymraeg/World of Welsh* – Elin Meek – Rily

Adnabod Awdur

# Natalie Jones



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Cefais fy ngeni yn Birmingham a fy magu ym Mhwllheli.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Es i i Ysgol Cymerau ac yna i Ysgol Glan y Môr, Pwllheli.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Ro'n i'n teimlo'n unig drwy'r ysgol – casáu'r ysgol uwchradd, ac eisiau bod yn athrawes neu'n nyrs pan oeddwn i'n blentyn.
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *The Secret Garden* – roeddwn i'n hoffi'r syniad o'r ardd gudd a'r ffordd roedd y plant yn darganfod eu lle yn y byd. Roedd y darnau yn India hefyd yn fy swyno – lle dwi wastad wedi dymuno ymweld ag e.
**Beth yw eich diddordebau?** Ysgrifennu, darllen, coginio, gwylio ffilmiau a gwrando ar gerddoriaeth. Hoff o fod allan yn yr awyr agored yn mwynhau byd natur hefyd.
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Fy mhlant a fy ngŵr, cerddoriaeth a bwyd. Pobl ddoniol a charedig. Babis.
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl hunanol.
**Pryd ddechreuoch chi ysgrifennu?** Yn ddeg oed, yn creu straeon i fy chwiorydd.
**Pam rydych chi'n ysgrifennu?** Diffyg hanes pobl Ddu Cymraeg mewn llenyddiaeth. I ysbrydoli pobl, i wneud i chi deimlo'n gryf, ac er mwyn gweld y pethau da yn y byd. Mae hefyd yn ffordd o wrthsefyll hiliaeth.
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Dwi'n hoffi rhoi rhyw fath o ddirgelwch i'w ddatrys.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Ailddarllen, ailddrafftio a gwneud nodiadau. Cadwa lyfr nodiadau gyda ti ac wrth ochr dy wely a gwranda ar bobl a'u harsylwi. Mae mynd allan i'r awyr iach a defnyddio'r pump synnwyr yn gyngor da hefyd.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
The Secret Garden, y Pry Bach Tew.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Dickon o'r Secret Garden – roedd e'n ddiniwed ac yn bositif, yn byw'n rhydd ac yn gofalu am natur ac anifeiliaid.

**Superpower o ddewis?**
Cryfder.

**Hoff fwyd?**
Ackee a physgod hallt gyda iam, plantain a banana werdd.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant.

**Hoff le?**
Tŷ Mam-gu neu randir Taid.


**Hoff air?**
Bendigedig!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Only Fools and Horses.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Gofalu am blant – dyna fyddai'r swydd ddelfrydol.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Do it!




## Amara

**Manon Steffan Ros**

Atebol | 978-1-801065-40-5

Mae Femi yn ferch sydd yn hoffi pop ceirios a dawnsio i gerddoriaeth uchel a gwneud comics. Er hynny, mae ei swildod yn ei chadw ar yr ymylon, i ffwrdd oddi wrth fwrlwm plant y parc. Ond mae hyder merch liwgar, siriol o'r enw Amara yn llwyddo i'w thynnu o'i chragen a'i rhyfeddu gyda'i phwerau arbennig.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Beth sy'n dod i'ch meddwl pan ydych chi'n meddwl am y gair 'cyfeillgarwch'? Beth mae'r gair yn ei olygu i chi a pham?
- Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud ffrind da a pham?
- Mae Femi'n hoffi dawnsio i gerddoriaeth uchel. Beth amdanoch chi? Ydych chi'n hoffi dawnsio? Oes gennych chi hoff gân neu fand?
- Pa ddawnsiau'r byd ydych chi'n gwybod amdanyn nhw?
- Pa un sydd orau gennych chi, dawnsio neu ganu? Neu rywbeth arall?
- Mae Femi hefyd yn hoffi gwneud comics. Ydych chi wedi darllen unrhyw gomics?
- Ydych chi'n hoffi comics?
- Mae Femi'n swil ac yn aros ar yr ymylon i ffwrdd o'r plant eraill. Sut gallwn ni ddangos cyfeillgarwch i wneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n hapus a chyfforddus?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am greu ffeil o ffeithiau am yr awdures? Gallwch ysgrifennu'r ffeithiau a llunio cwis gyda chwestiynau. Er enghraifft, o ble mae Manon Steffan Ros yn dod? (Gallwch ddefnyddio'r proffil Adnabod Awdur yn y pecyn yma i'ch helpu.)



**Neu:**
Crëwch fap stori o'r llyfr i'w droi'n gomic, drama neu ffilm. Gallwch wneud hyn mewn grwpiau. Rhaid i bob person yn eich grŵp ddewis ffaith bwysig o'r llyfr er mwyn ei chynnwys ar eich map. Bydd angen i chi feddwl am sgript, set a gwisgoedd os ydych chi'n creu drama neu ffilm, a bydd angen i chi feddwl am ddarluniau os ydych chi'n creu nofel graffig. Gallwch ddefnyddio'r lluniau sy'n y llyfr fel ysbrydoliaeth ar gyfer hyn.


### Wedi mwynhau *Amara*?
### Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Stryd Nici a Ffion Wyn* – Ben Andrews – Gwasg Carreg Gwalch
- Cyfres *Mira* – Luned Aaron – Atebol
- *Y Fainc Ffrindiau/The Friendship Bench* – Wendy Meddour – Atebol
- *Gwen ac Arianrhod* – Lleucu Gwenllian – Gwasg Carreg Gwalch
- Cyfres *Seren a Sbarc* – Elidir Jones, Huw Aaron – Broga



### Adnabod Awdur

# Manon Steffan Ros



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Yn Rhiwlas, pentref bach yn y tir uchel yn ymyl Bethesda.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gynradd Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Fy ffrindiau, y gwaith darllen a sgwennu, a'r holl hwyl oeddwn i'n ei gael! Ond do'n i ddim yn hoff iawn o wersi ymarfer corff na mathemateg (sy'n drueni, achos dwi'n mwynhau'r rheini rŵan).
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Awdur! Ro'n i'n caru llyfrau erioed, ac yn licio meddwl am straeon bach fy hun, ond doeddwn i ddim yn meddwl fod bod yn awdur yn job go iawn. Dwi'n ddiolchgar iawn 'mod i'n awdur erbyn hyn – y job ora' erioed!
**Beth yw eich diddordebau?** Darllen (wrth gwrs!) a gwylio'r teledu. Mae coginio'n ddiddordeb mawr gen i hefyd, a phêl-droed. Dwi'n ffan mawr o LFC ac yn licio mynd i Anfield pan ga i gyfle!
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Cerdded! Yn aml dwi'n cael syniadau am straeon wrth grwydro mynyddoedd neu goedwigoedd. Mae fy mhlant yn fy ngwneud i'n hapus iawn hefyd. Maen nhw'n gwmni mor dda, yn ddigri ac yn ddifyr.
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Annhegwch, yn enwedig os oes 'na bobl sydd ddim yn cael eu trin yn iawn, neu os oes 'na bobl yn cael eu trin yn wahanol i'w gilydd. Ond dwi'n llawer mwy tebygol o fod yn drist na gwylltio.
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Dwi ddim yn cofio peidio meddwl am sgwennu – mae 'na straeon wedi bod yn fy mhen i erioed. Ond dwi ddim yn meddwl 'mod i wedi dechrau meddwl o ddifri am sgwennu straeon mewn llyfr tan i mi gael plant – ro'n i eisiau sgwennu pethau iddyn nhw.
**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Dydi cael y syniad ddim yn broblem, mae gen i ormod! Y tric ydi penderfynu pa rai fydd yn gweithio fel llyfr.
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Dwi'n licio sgwennu am bobl ifanc, achos dwi'n meddwl fod o'n gyfnod diddorol a chyffrous, ond hefyd yn gyfnod anodd iawn mewn bywyd.

# Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Boy gan Roald Dahl ac O'r Tywyllwch gan Mair Wynn Hughes.

Hoff gymeriad o lyfr?

Dwi'n edmygu Efa o gyfres y Melanai gan Bethan Gwanas yn fawr.

Superpower o ddewis?

Dwi'n meddwl 'swn i wir yn mwynhau'r teimlad o allu hedfan.

Hoff le i ysgrifennu?

Amhosib dewis! Mae 'na un llecyn yn y mynyddoedd uwchben Ffestiniog lle ges i syniad ar gyfer fy llyfr nesa, felly mae fy meddwl i'n fanno'n aml iawn y dyddiau hyn.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Jôcs gwael Dad.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Jurassic Park.

Hoff fwyd?

Bounties, madarch a bresych. Ddim efo'i gilydd!

Hoff air?

Trugaredd.

Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Bod yn awdur YDI fy swydd ddelfrydol! Fel arall, hanesydd.

Top tip i ddarpar awduron?

SGWENNWCH! Does 'na ddim ffordd anghywir o adrodd stori.




## Mira a'r Goeden

**Luned Aaron**


Atebol | 978-1-801064-25-5

Dyma'r drydedd stori yng nghyfres Mira gan yr awdur arobryn Luned Aaron. Yn y stori hon, mae'r teulu yn mynd i wersylla. Ond sut fydd Mira yn ymdopi mewn pabell? Ac a fydd hi'n dod yn ffrindiau ag aelodau'r teulu arall sy'n gwersylla gyda nhw? Efallai y bydd coeden arbennig yng nghanol y goedwig yn help iddi...


### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae *Mira a'r Goeden* yn rhan o gyfres. Beth fyddech chi'n hoffi gweld Mira'n ei wneud nesaf?
- Sut ydych chi'n meddwl roedd Mira'n teimlo ar ddechrau'r stori? Sut oedd hi'n teimlo erbyn diwedd y stori? Beth ddigwyddodd i newid ei theimladau hi?
- Beth yw neges y stori yn eich barn chi? A beth ydy prif themâu'r stori hon?
- Ydych chi'n mwynhau antur? Pa fath o anturiaethau ydych chi wedi eu cael?
- Ydych chi wedi gwersylla o'r blaen? Hoffech chi? I ble hoffech chi fynd?
- Ar ddechrau'r stori, pan mae Mira a'i theulu yn y car, mae Mira'n esbonio sut mae pawb yn 'ffraeo am ba gerddoriaeth i'w chwarae' (tudalen 16). Pa fath o gerddoriaeth ydych chi'n ei hoffi? Oes gennych chi hoff fand? Beth am wneud rhestr o ganeuon yn eich dosbarth a phawb i ddewis un gân – gan obeithio na fyddwch chi'n ffraeo!
- Pa drip neu wyliau sy'n aros yn y cof? Beth sy'n gofiadwy amdanyn nhw?
- Hoffech chi fynd ar yr un trip â Mira?

**Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad**
Gan ddefnyddio apiau a thechnoleg sydd ar gael ar gyfrifiaduron neu iPads, dyluniwch eich gwersyll neu ganolfan antur eich hun. Meddyliwch am y math o bethau y byddai angen i chi eu cynnwys. Er enghraifft, lle i bobl gysgu, lle i'r gwahanol weithgareddau sydd ar gael, a phethau byd natur fel coedwig, mynyddoedd, llyn neu afon.



**Neu:**
Beth am ysgrifennu cerdyn post at ffrind o drip gwersylla neu wyliau arall? Efallai'n seiliedig ar drip ydych chi wedi ei gael o'r blaen neu rywbeth o'ch dychymyg? Cofiwch sôn am yr holl bethau welsoch chi a'r holl bethau hwyl wnaethoch chi.



**Wedi mwynhau *Mira a'r Goeden*?**
**Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**

- *Llwybr Llanast* – Burhana Islam – Graffeg
- Cyfres *Sara Mai* – Casia Wiliam – Y Lolfa
- Cyfres *Genod Gwyrdd* – Holly Webb – Rily
- Cyfres *Dosbarth Miss Prydderch* – Mererid Hopwood – Atebol
- *Megs* – Meleri Wyn James – Y Lolfa

Adnabod Awdur

# Luned Aaron



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Bangor.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gynradd y Garnedd ac Ysgol Uwchradd Tryfan.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Hoffi: cerdded i Fangor Uchaf amser cinio i nôl chips a *sweet 'n sour sauce* efo fy ffrindiau pan o'n i'n ddigon hen. Ro'n i wrth fy modd yn y gwersi Celf a Drama. Casáu: gorfod rhedeg rownd y cae yn y glaw yn y gwersi chwaraeon!
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Awdures, yna actores... wedyn, awdures eto!
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Un ohonyn nhw oedd *Lleuad yn Olau* gan T. Llew Jones gyda lluniau anhygoel Jac Jones. Dwi wedi prynu copïau ar gyfer fy mhlant.
**Beth yw eich diddordebau?** Darllen, ffilmiau, crefftau a ffotograffiaeth.
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Dawnsio'n wirion efo'r teulu yn y gegin.
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Diffyg gofal o'r hen fyd yma.
**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Pethau bach bob dydd yn aml, ac mae dod yn rhiant wedi bod yn sbardun creadigol enfawr.
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Mae byd natur yn thema sy'n fy sbarduno'n aml. Mae manylion dyddiol byd plant yn sbardun hefyd.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Darllenwch, darllenwch, darllenwch! A nodwch syniadau pan maen nhw'n taro, heb boeni am gywirdeb iaith a ballu ar y cychwyn. Buan mae darn o waith yn datblygu wrth roi'r amser. Hefyd, cadwch ddyddiadur – mae'n arferiad dwi wedi ei gadw ers o'n i'n ddeg oed.
**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau: gallu gweithio yn unrhyw le yn y byd (mwy neu lai!). Y peth gwaethaf: anodd meddwl, a deud y gwir. Pan fo diogi'n taro a'r geiriau ddim yn dod yn rhwydd, am wn i.

# Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Lleuad yn Olau gan T. Llew Jones a Jac Jones.

Hoff gymeriad o lyfr?

Roedd Blodeuwedd, yr ymgyrchydd iaith yn y nofel *Yma o Hyd* gan Angharad Tomos, yn dipyn o arwres i mi pan oeddwn i'n ifanc.

Superpower o ddewis?

Gallu peidio cysgu er mwyn cael mwy o amser!

Hoff le?

Traethau'r Gŵyr.

Hoff fwyd?

Bwyd Thai.

Hoff air?

Dilyffethair.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Dwi'n hoff o gyfresi comedi, yn enwedig *The Flight of the Conchords*.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Gweld fy mhlant yn diddanu.

Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Ffotograffydd.

Top tip i ddarpar awduron?

Peidiwch bod ofn cystadlu mewn eisteddfodau – mae beirniadaeth neu lwyddiant yn gallu bod yn hwb i ddal ati.




## Ymlaen â Hi! Menywod Cymru ym Myd y Campau

**Elen Williams**

Gwasg Carreg Gwalch | 978-1-845279-85-1

Roedd y cyfleoedd a'r adnoddau i ferched a menywod Cymru ddatblygu eu sgiliau chwaraeon ar ei hôl hi am flynyddoedd. Ond mae pethau'n gwella, ac mae'r gyfrol hon yn dathlu camp y menywod hynny sydd wedi mynd – ac yn dal i fynd – amdani i'r eithaf.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Oeddech chi'n gwybod am y bobl yn y llyfr cyn ei ddarllen? Beth ydych chi wedi'i ddysgu o ddarllen y llyfr? Oes unrhyw un o'r enwogion yn dod o'ch ardal chi?
- Ydych chi'n hoffi chwaraeon? Oes gennych chi hoff chwaraeon? Pam?
- Petaech chi'n cwrdd ag un o sêr *Ymlaen â Hi!*, pa dri chwestiwn fyddech chi'n eu gofyn?
- Ydych chi'n gallu gwneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am hanes hawliau merched?
- Ydych chi'n meddwl bod darllen llyfrau ffeithiol yn wahanol i ddarllen llyfrau ffuglen? Pam hynny?
- Beth sydd orau gennych chi: llyfrau ffuglen neu lyfrau ffeithiol?
- Beth yw neges y llyfr yn eich barn chi?
- Pa un sydd orau gennych chi – mabolgampau neu eisteddfod? Neu'r ddau? Neu ddiwrnod cyffrous arall yn yr ysgol?
- Mae'r llyfr yn cynnwys straeon ysbrydoledig. Beth mae'r gair 'ysbrydoledig' yn ei olygu i chi?

### Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am ddylunio cit chwaraeon, tlws neu fedal eich hun? Edrychwch ar luniau o gitiau, tlysau neu fedalau ar y we neu mewn llyfrau i gael syniadau, ac yna ewch ati i greu rhai eich hun. Gallwch wneud hynny ar bapur, neu gan ddefnyddio eitemau bach y gallech ddod o hyd iddyn nhw yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft clai, cardfwrdd ac ati.

**Neu:**

Beth am gynllunio mabolgampau neu ornest chwaraeon eich hun? Neu, os oes well gennych chi, eisteddfod eich hun. Os ydych chi'n dewis gornest chwaraeon, pa fath o gamp – fel rhedeg ras neu chwarae pêl-droed – hoffech chi ei gwneud?
Ac os ydych chi'n dewis eisteddfod, meddyliwch am y mathau o gystadlaethau, stondinau a pherfformiadau i'w cynnwys. Gallwch chi gynnwys pethau go iawn neu bethau o'ch dychymyg – fel ras hudol lle mae'r cystadleuwyr yn gallu hedfan yn yr awyr! Byddwch yn greadigol!






### Wedi mwynhau *Ymlaen â Hi! Menywod Cymru ym Myd y Campau*?
### Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Genod Gwych a Merched Medrus* – Medi Jones-Jackson – Y Lolfa
- *Cymry o Fri* – Jon Gower – Y  Lolfa
- Cyfres *Enwogion o Fri* – Broga
- Cyfres *Genod Gwyrdd* – Rily
- *Arwyr Chwaraeon Cymru* – James Stafford – Y Lolfa

Adnabod Awdur

# Elen Williams



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Eifionydd.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gynradd Chwilog, Ysgol Glan y Môr, Pwllheli.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Hoffi Celf, casáu twrw'r gloch!
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Artist!
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *Y Dynion Bach Od.*
**Beth yw eich diddordebau?** Ffermio, darllen a bod allan yn yr awyr iach.
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Y plant.
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Gwastraffu amser!
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Ers dechrau cystadlu mewn eisteddfodau lleol yn ifanc.
**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Y pethau a'r bobl sydd o fy nghwmpas i – a llyfrau, wrth gwrs!
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Anifeiliaid, hud a lledrith a phobl.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** 1% yw'r ysbrydoliaeth, pen i lawr a gweithio ydi'r 99% arall!
**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Cael rhannu gwybodaeth a straeon difyr gydag eraill.

# Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

y Dynion Bach Od a chyfres Harry Potter.

Hoff fwyd?

Cinio Sul!

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Plant hapus ar ddiwrnod braf!

Superpower o ddewis?

Gallu byw heb gwsg!

Hoff le?

Rhywle gyda fy nheulu.

Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Artist llawn amser!

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Gormod o ddewis!

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram.

Hoff air?

Ymlaen!

Top tip i ddarpar awduron?

Darllenwch, cystadlwch a mwynhewch!




## Y Gwaith Cartref Coll

**Richard O'Neill**

Rily | 978-1-804164-08-2

Ar ddiwedd penwythnos prysur gyda'i deulu, mae Sonny'n sylweddoli ei fod wedi colli ei lyfr gwaith cartref. Mae'n gofidio y bydd e'n cael stŵr yn yr ysgol, ond caiff syrpréis hyfryd wrth ddarganfod ei fod wedi gwneud yr un faint o waith â'r disgyblion eraill. Stori am Deithwyr, ac un sy'n ein hatgoffa ein bod yn dysgu pan nad ydyn ni'n yr ysgol hefyd. Rhan o gynllun Rhyngom.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ydy'r clawr yn dweud unrhyw beth i chi am y stori? Beth ydy eich barn am y clawr?
- Mae rhestr geirfa ar ddechrau'r llyfr – ydych chi'n gallu siarad unrhyw ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg? Neu a hoffech chi ddysgu iaith arall? Pa iaith a pham?
- Ydych chi wedi bod mewn priodas neu ddathliad mawr o'r blaen?
- Mae Sonny'n 'dwlu ar chwarae cerddoriaeth'. Beth amdanoch chi? Ydych chi'n gallu chwarae offeryn? Hoffech chi?
- Mae Sonny wedi ysgrifennu stori yn yr ysgol ac yna'n adrodd y stori yn y briodas. Ydych chi'n hoffi ysgrifennu straeon? Pa fath o straeon ydych chi'n hoffi ysgrifennu?
- Mae Sonny'n hoffi coginio. Ydych chi'n hoffi coginio hefyd? Beth ydy eich hoff fwyd?
- Mae Modryb Pearl yn gwnïo ffedogau i'w gwerthu yn y farchnad. Ydych chi'n gallu dylunio ffedog?
- Beth sy'n dod i'ch meddwl pan ydych chi'n meddwl am y gair 'cymuned'? Beth mae'r gair yn ei olygu i chi a pham?

- Mae Sonny'n teimlo'n nerfus pan mae o'n mynd i'r ysgol heb ei lyfr gwaith cartref ac yn poeni am ymateb ei athrawes. Sut gallwn ni helpu ffrind sy'n teimlo'n nerfus?
- Mae ffrindiau Sonny yn dweud wrtho am yr holl bynciau mae o wedi'u gwneud dros y penwythnos – fel Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth, Cerddoriaeth a Chymraeg. Oes gennych chi hoff bwnc? Pam?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad


Mae Sonny'n hoffi creu darlun yn ei ben o ble mae'r teulu'n mynd gan ddefnyddio'r map.



Ydych chi wedi defnyddio map o'r blaen? Ydych chi'n gwybod sut i ddarllen map? Beth am ddylunio map eich hun ar gyfer taith o'ch dewis? Rhywle sy'n bodoli yn barod neu rywle o'ch dychymyg! Fel ynys hudol a chist drysor wedi ei chuddio!

**Neu:**

Mae Sonny a'i dad yn gwneud nodyn o'r ffordd maen nhw angen mynd gan ddefnyddio'r raddfa i gyfrifo'r pellter, ac mae tad Sonny'n gofyn iddo: 'Os yw'r briodas 180km i ffwrdd, ac rydyn ni'n gyrru ar gyflymder o 80km yr awr, bydd hi'n cymryd...'. Ydych chi'n gwybod yr ateb heb edrych yn y llyfr? Neu ydych chi'n gallu creu cwestiynau mathemateg tebyg gyda phartner a cheisio dod o hyd i'r atebion?




## Wedi mwynhau *Y Gwaith Cartref Coll*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Llwybr Llanast* – Burhana Islam – Graffeg
- *Dyma'n Teulu Ni* – Patricia Hegarty – Gwasg Carreg Gwalch
- *Julian yn y Briodas* – Jessica Love – Atebol
- *Antur Taid a Fi* – Harry Woodgate – Graffeg
- *Dy Stori Di Yw Hon/Tell Your Own Story* – Adam Guillain, Charlotte Guillain – Rily

Adnabod Awdur

# Bethan Mair



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Fe ges i fy ngeni yn Ysbyty Castell-nedd, yna ar ôl byw am ddwy flynedd yn Amlwch a phum mlynedd ger Aberteifi, symudodd y teulu i Bontarddulais pan oeddwn i'n saith.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Dechreuais yr ysgol gynradd ym Mhenyparc, Aberteifi, ac yna Ysgol Bryniago, Pontarddulais ac Ysgol Gyfun Ystalyfera – roedd addysg y bws ysgol bron yr un mor werthfawr ag addysg y dosbarth!

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Ro'n i'n caru llenyddiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Doeddwn i ddim gwerth ar goginio (dydw i ddim hyd heddiw) ac roedd gwersi ymarfer corff yn artaith.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Roedd gweithio gyda llyfrau'n apelio, ond do'n i ddim yn gwybod y gallai rhywun fod yn olygydd llyfrau, nac yn swyddog gyda gwasg sy'n cyhoeddi llyfrau.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Yn yr ysgol gynradd dwi'n cofio cael *I Like This Poem*, a gallaf gofio nifer o'r cerddi oedd yn y gyfrol hyd heddiw.

**Beth yw eich diddordebau?** Darllen, wrth gwrs, a gwylio operâu sebon ar y teledu; dwi'n hoffi garddio yn fawr iawn, a mynd i ymweld â gerddi.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Diwrnod braf, hufen iâ, treulio amser yng nghwmni fy hoff bobl.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl anghwrtais.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Yn yr ysgol gynradd. Cofio ysgrifennu straeon yn llawn o antur! Wedyn cael fy meithrin i gyfansoddi yn yr ysgol – a'r wefr o weld fy ngwaith yng nghylchgrawn yr ysgol, ac yn y brifysgol hefyd – wnes i ddilyn cwrs ysgrifennu creadigol fel rhan o'm gradd yn y Gymraeg.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Addasu fydda i'n ei wneud yn bennaf, ond mae dal angen meddwl yn ddyfeisgar am sut mae cymeriadau'n siarad Cymraeg yn gredadwy mewn llyfrau a gyfansoddwyd yn wreiddiol yn Saesneg, felly dwi'n hoffi gwrando ar bobl yn siarad.

# Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

I Like This Poem.

Hoff gymeriad o lyfr?

Thomas Cromwell yn nhrioleg *Wolf Hall* gan Hilary Mantel.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Gormod i'w rhestru! Dwi byth yn colli *Coronation Street*...

Hoff fwyd?

Brechdanau.

Hoff le?

Unrhyw le ar lan y môr.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Gweld fy mhlanhigion yn tyfu a blodeuo.

Hoff air?

Dedwyddwch.

Superpower o ddewis?

Hedfan.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Facebook.

Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Dwi'n gwneud fy swydd ddelfrydol nawr, sef trin geiriau.

Top tip i ddarpar awduron?

Gwrandewch ar bobl yn siarad, a darllenwch y math o lyfrau yr hoffech chi eu hysgrifennu.

# GORNEST LYFRAU 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Wedi'i drefnu a'i gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru